

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD	02/01/2026
DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD	06/01/2026
DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	13/01/2026

ENW A THEITL YR AELOD CABINET

Y Cyngorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo)

PWNC

Cytundeb Opsiwn i Firmhelm Cyfyngedig

PENDERFYNIAD –

I roi Cytundeb Opsiwn i Firmhelm Cyfyngedig ar Ystafell Erch ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU


Dim.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd a'r Aelodau Lleol.

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD –
ADRODDIAD SWYDDOG**

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Cynghorydd Paul Rowlinson
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Gethin Jones (Uwch Syrfêwr Stadau)
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad:	02/01/2026
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	

Pwnc :

Cytundeb Opsiwn i Firmhelm Cyfyngedig

Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :

I roi Cytundeb Opsiwn i Firmhelm Cyfyngedig ar Ystafell Erch ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi bod angen cymeradwyaeth gan yr Aelod Cabinet ar gyfer unrhyw brydles uniongyrchol o eiddo nad yw ar y farchnad agored.

Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :

Mae'r Cyngor yn bwriadu meddiannu Ystafell Erch (yr 'Eiddo') o fewn adeilad Hafan yn Harbwr Pwllheli at ei ddibenion gweithredol ei hun. Mae'r feddiannaeth hon yn hanfodol i wella'r gwasanaethau a ddarperir yn yr Harbwr ac mae'n cyd-fynd â Chynllun Creu Lleoedd Pwllheli y Cyngor i adfywio'r ardal.

Ar hyn o bryd, mae'r eiddo wedi'i brydlesu i Firmhelm Cyf. Mae gan Firmhelm hawl cytundebol i adnewyddu'r brydles bresennol am gyfnod pellach o bum mlynedd. O ystyried yr amserlen dynn ar gyfer sicrhau meddiant gwag, ildio'r brydles yn gyfreithiol yw'r opsiwn mwyaf priodol i gyflawni'r nod hwn.

Mae gallu'r Cyngor i adnewyddu'r Eiddo a sicrhau'r cyllid angenrheidiol yn amodol ar amserlen gaeth.

Mae'r ddwy ochr yn cynnig ymrwymo i Gytundeb Opsiwn â chyfyngiad amser sy'n rhoi'r opsiwn i Firmhelm Limited gymryd prydles newydd os yw'r Cyngor yn gadael yr Eiddo. Bydd y Cytundeb Opsiwn yn sicrhau bydd Rhent y Farchnad yn cael ei dalu os ydy'r Opsiwn yn cael ei gymryd gan Firmhelm.

Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :
Dim.

Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :

Prif Swyddog Cyllid – “Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.”

Swyddog Monitro – “Yn amlwg mae amgylchiadau penodol ynglŷn a defnydd rhan o adeilad yr Hafan dan sylw yma. Gan nad yw y Cyngor am adnewyddu y brydles gyfredol gyda cwmni Firmhelm mae'r opsiwn cynnig cyfle i wireddu amcanion y Cyngor a rhoi cyfle i'r cwmni gael ail afael yn yr adnodd petai y Cyngor yn dirwyn ei ddefnydd i ben.”

Aelod Lleol (Cynghorydd Elin Hywel) – Dim sylwadau wedi ei derbyn.

Aelod Lleol (Cynghorydd Hefin Underwood) – Dim gwrthwynebiad.